Gall gwasanaethau llywodraeth osod cwcis ychwanegol, ac os felly, bydd ganddynt bolisi a baner cwcis ar wahân. Gallwch newid eich gosodiadau cwci ar unrhyw bryd.

Cuddio



CANLLAWIAU

# Canllawiau COVID-19 i sefydliadau addysg uwch Cymru: diweddariad Medi 2020

Canllawiau ar ymgynnull dan do, ymgynnull yn yr awyr agored, aelwydydd estynedig a gorchuddion wynebau.

Cyhoeddwyd gyntaf:
28 Medi 2020

Diweddarwyd ddiwethaf:
28 Medi 2020

Cynnwys

Ymgynnull o dan do

Ymgynnull yn yr awyr agored

Aelwydydd estynedig

Gorchuddion wyneb

## Ymgynnull o dan do

Mae'r gyfraith yng Nghymru yn gosod cyfyngiadau ar bobl sy'n ymgynnull dan do gydag eraill heb esgus rhesymol (rhestrir rhai enghreifftiau yn y Rheoliadau). Golyga hyn fel arfer na ddylai pobl fynd i dai ei gilydd y tu allan i'w haelwyd estynedig.

Rhaid i unrhyw gynulliad, cyfarfod neu barti o dan do, hyd yn oed o fewn eich aelwyd estynedig, gael ei gyfyngu i 6 o bobl (heb gynnwys unrhyw blant o dan 11 oed). Mae hyn yn gymwys mewn mannau fel tafarnau a bwytai yn ogystal â chartrefi pobl.

Dylid rhoi gwybod i fyfyrwyr na chaniateir unrhyw barti o dan do gyda phobl o aelwydydd gwahanol.

## Ymgynnull yn yr awyr agored

Caniateir i hyd at 30 o bobl ymgynnull yn yr awyr agored.

Wrth gyfarfod yn yr awyr agored, cynghorir myfyrwyr a staff i gadw pellter cymdeithasol rhyngddynt ag unrhyw bobl o'r tu hwnt i'w haelwyd neu aelwyd estynedig, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Rydym yn parhau i gynghori pobl i osgoi llefydd lle mae nifer fawr o bobl yn tueddu i ddod at ei gilydd heb unrhyw reolaeth.

Caniateir cynnal gweithgareddau awyr agored gyda hyd at 30 o bobl, gan gynnwys chwaraeon tîm a dosbarthiadau. Os bydd hyn yn cael ei drefnu ar dir y brifysgol, bydd dyletswydd ar y person cyfrifol i gynnal asesiad risg priodol o flaen llaw a chymryd pob cam rhesymol i gyfyngu'r perygl o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Fel arfer bydd gan y rhai sy'n trefnu digwyddiadau o'r fath ddyletswydd gofal dros y rhai sy'n bresennol, sy'n golygu y dylid sicrhau bod y digwyddiad mor ddiogel â phosib.

Dylid cynghori myfyrwyr a staff i osgoi ymgynnull yn answyddogol, unrhyw fannau prysur a chiwiau hir.

## Aelwydydd estynedig

Sylwch na chaniateir aelwydydd estynedig mewn ardaloedd dan fesurau diogelu iechyd lleol.

Gallai aelwydydd estynedig fod yn atyniadol iawn i fyfyrwyr y blynyddoedd hynaf sy'n dueddol o ffurfio aelwydydd mwy traddodiadol, ac sydd â grwpiau cymdeithasol wedi'u diffinio'n gliriach. Fodd bynnag, bydd hyn yn arwain at ddewisiadau anodd, yn arbennig ar gyfer partneriaid, gan fod rhaid i bob unigolyn yr aelwyd gytuno ar yr un aelwyd estynedig. Fodd bynnag, mae hyn yn wir ar gyfer y boblogaeth gyfan ar hyn o bryd. Byddai eithrio myfyrwyr o'r trefniadau hyn yn anghymesur.

Fodd bynnag, gallai aelwydydd estynedig fod yn anymarferol ar gyfer myfyrwyr newydd / blwyddyn gyntaf, a'r rhai sydd eisoes yn byw mewn aelwydydd mwy. Dan amgylchiadau o'r fath, efallai y byddai'r sefydliadau am gynghori'r myfyrwyr hyn i beidio ffurfio aelwydydd estynedig.

Ar ben hynny, efallai bod angen cymorth ychwanegol ar fyfyrwyr agored i niwed a myfyrwyr mewn cyflwr iechyd uwch wrth benderfynu ffurfio aelwydydd ac aelwydydd estynedig.  Efallai y bydd angen cymorth arnynt hefyd i gyfathrebu gyda myfyrwyr eraill lle dylid ystyried yr angen i gadw'i gilydd yn ddiogel.

## Gorchuddion wyneb

O 14 Medi ymlaen, mae gorchuddion wyneb yn ofynnol ym mhob man cyhoeddus o dan do, gan gynnwys ar gyfer myfyrwyr a staff sy'n gweithio yn y mannau cyhoeddus dan do hynny, oni bai bod gan rywun esgus rhesymol (gweler isod). Mae hyn yn cynnwys unrhyw ardaloedd cyhoeddus o fewn adeiladau sydd fel arall ar gau i'r cyhoedd - er enghraifft derbynfa swyddfa.

Gweler ein cyngor ar orchuddion wyneb.

Rydym yn argymell yn gryf yn dylai prifysgolion wneud y defnydd o orchuddion wyneb yn orfodol ym mhob man cyhoeddus o dan do, gan gynnwys mewn llety myfyrwyr a phob ardal lle na ellir cadw pellter cymdeithasol, os nad oes rhesymau cadarn dros beidio gwneud hynny.

Rydym hefyd yn cynghori prifysgolion i benderfynu a ddylid ei gwneud yn ofynnol gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau addysgu a dysgu, ar sail asesiad risg ac yng nghyd-destun amgylchiadau lleol a'r angen i gael mynediad at addysg.

Cyhoeddwyd gyntaf
28 Medi 2020

Diweddarwyd ddiwethaf
28 Medi 2020